




DIM SYLW

Canllaw Diffynnydd wrth gael ei arestio





NID YW CAEL DY ARESTIO YN JÔC.

Mae'n fater ddifrifol. Mae pob euogfarn yn cyfri: er enghraifft, os cewch eich dal tair gwaith yn dwyn o siop, pur debyg y byddych yn cael eich anfon i'r carchar.

Os oes posibilrwydd y cewch chi eich arestio, paratowch eich hun yn gyntaf: sicrhewch eich bod yn gwybod beth i'w wneud rhag ofn. Oni bai eich bod yn mwynhau celloedd, ystafelloedd llys, carchardai dylech chi wneud ymdrech i ddod i wybod am y materion hyn.

WRTH GAEL EICH ARESTIO

Gofynnir i chi roi eich **enw, cyfeiriad a'ch dyddiad geni** i'r heddlu - nid oes rhaid i chi roi unrhyw fanylion, ond gall gwrthod rhoi eich manylion olygu oedi cyn i chi gael eich rhyddhau.


Mae ganddynt hefyd yr hawl i gymryd eich olion bysedd, ffotograffau a samplau corfforol amheronol (a swab poer, i gofnodi eich DNA). Bydd y rhain yn cael eu cadw ar ffeil, hyd yn oed os nad ydych yn cael eich cyhuddo, ond os byddwch yn erlyn yr heddlu yn nes ymlaen, dylech geisio sicrhau, drwy'r llysoedd, y caiff y wybodaeth yma ei ddinistrio.

Fe wnaeth y *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994*, ddileu'r 'Hawl i ddistawrwydd' traddodiadol. **Fodd bynnag**, yr oll mae hyn yn ei olygu yw y gall yr heddlu / erlyniad dynnu sylw at eich penderfyniad i wrthod i siarad â nhw, pan ddaw'r achos i'r llys, ac *efallai* y bydd y llys yn cymryd hyn fel tystiolaeth o'ch euogrwydd.

Ni all yr heddlu eich gorfodi i siarad na gwneud datganiad, beth bynnag y maent yn ei ddweud wrthoch chi yn yr orsaf.

Ni all gwrthod siarad, wrth ei hun, gael ei ddefnyddio ei ddefnyddio i'ch cael yn euog. Rydym yn credu mai'r polisi gorau, **os ydych am osgoi cael eich erlyn yw aros yn ddistaw**. Yr amser gorau i lunio amddiffyniad da yw gyda'ch cyfreithiwr neu gyda thystion, nid o dan bwysau ac yn nwylo'r heddlu. Os yw eich gwrthodiad i siarad yn codi fel mater yn y llys, rydym yn credu mai'r amddiffyniad gorau yw gwrthod siarad nes bydd eich cyfreithiwr yno. Dyna pryd y gallwch gytuno ar eich penderfyniad a dweud eich bod yn gweithredu ar gyngor cyfreithiol.

Os cewch eich arestio o dan *Ddeddf Terfysgaeth 2000*, gall yr heddlu eich cadw yn y ddalfa am gyfnod mwy nag sydd yn arferol. Maent eisoes wedi defnyddio hyn yn erbyn protestwyr ac eraill er mwyn eu dychryn. Cofiwch nad yw cael eich arestio'r un fath â chael eich cyhuddo. **Mae cadw'n dawel yn dal i fod y peth gorau i'w wneud yn nalfa'r heddlu.**



COFIWCH - MAE POB CYHUDDIAD YN CYFRI



MECHNÏAETH HEDDLU

Mae'n gyffredin i'r heddlu i ryddhau pobl ar fechnïaeth, gan nad oes gan yr heddlu hawl i gyhuddo pobl gydag unrhyw beth, ac eithrio mân droseddau, heb gytundeb gyda *Gwasanaeth Erlyn y Goron (The Crown Prosecution Service/CPS)*. Yn aml byddant yn atodi amodau i'r fechnïaeth, megis peidio â mynd i mewn i rai ardaloedd neu beidio mynd i brotestiadau.

Tra byddwch ar fechnïaeth yr heddlu byddant yn ceisio dod o hyd i dystiolaeth yn eich erbyn ac anfon ffeil at y CPS, sydd wedyn yn penderfynu ar y cyhuddiad priodol. Heblaw diogi, anghymhwysedd ac aneffeithlonrwydd yr heddlu a'r CPS mae ganddyn nhw resymau eraill dros arafu'r broses. Mae'r heddlu yn hoff o gadw pobl ar fechnïaeth am

ei fod yn gosb ynddi ei hun, yn enwedig os oes amodau ynghlwm, tra bod y CPS yn cael eu talu gwaeth pa mor hir mae'n ei gymryd. Mae hyn yn arwain at bobl ar gyfnod mechnïaeth am fisoedd neu flynyddoedd hyd yn oed sydd yn amharu ar eu bywydau ac yn rhoi pwysau seicolegol parhaus arnynt.

Yn rhyfedd, dydy torri amodau mechnïaeth yr heddlu (yn wahanol i fechnïaeth a roddwyd gan farnwr) ddim yn drosedd!

Fodd bynnag, mae gwrthod ildio i fechnïaeth (troi i fyny ar y dyddiad a roddir ar eich taflen fechnïaeth i lys neu i ddychwelyd i orsaf heddlu) yn drosedd (*Adran 6 Deddf Mechnïaeth 1976*). Os byddwch yn torri amodau mechnïaeth yr heddlu, gallwch gael eich arestio OND, a dyma'r rhan orau, mae rhaid iddynt eich dwyn gerbron llys o fewn 24 awr ar ôl arestio (heb gynnwys dydd Sul, Dydd Nadolig neu Ddydd Gwener y Grogolith). Gall y Llysoedd ond delio â phobl sydd wedi cael eu cyhuddo o drosedd. A dyna beth nad oedd yr heddlu eisiau ei wneud, oherwydd os cewch eich cyhuddo yna rhaid i chi gael gwybod beth yw'r amheuaeth ohonoch chi a pha dystiolaeth sydd yn eich erbyn. Mae'n bron heb gynsail i bobl gael eu remandio dim ond am dorri amodau mechnïaeth yr heddlu.

RHYBUDDION

Gall yr heddlu gynnig rhybudd i chi, yn hytrach na'ch cyhuddo chi. Byddant yn eich sicrhau nad yw hyn yn drosedd. Er bod hyn yn dechnegol wir, bydd rhybudd yn aros ar eich cofnod a gall ei gwneud yn anodd cael swydd ac ati yn y dyfodol. Mae'r heddlu yn cynnig rhybuddion i gryfhau eu ffigurau, pan nad oes ganddynt ddigon o dystiolaeth i gyhuddo neb.

SAFLEOEDD RHWYDWEITHIO CYMDEITHASOL (FACEBOOK AYYB.)

Os cewch eich arestio, bydd yr heddlu'n chwilio'r we ac yn defnyddio'r wybodaeth y maent yn dod o hyd iddo ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol ac ati. Os ydych yn brolio am bethau neu yn postio lluniau rydych yn gwneud gwaith yr heddlu ar eu cyfer. Byddant hefyd yn gallu gweld pwy yw eich ffrindiau ar-lein

C: Beth sy'n digwydd pan fyddaf yn cael fy arestio?

Pan gewch eich arestio, byddwch fel arfer yn cael eich rhoi mewn gefynnau, eich rhoi mewn fan ac eich cymryd i orsaf yr heddlu. Byddyt yn gofyn i chi roi eich enw, cyfeiriad a dyddiad geni. Dylech gael gwybod y rheswm dros eich arestio - cofiwch hyn a ddywedir, gall fod yn ddefnyddiol yn nes ymlaen. Bydd eich eiddo personol yn cael eu cymryd oddi wrthych. Mae'r rhain wedi eu rhestru ar y cofnod y ddalfa ac fel arfer gofynnir i chi lofnodi i ddweud bod mae'r rhestr yn gywir. Nid oes rhaid i chi lofnodi, ond os gwnewch dylech lofnodi yn union o dan y llinell olaf, fel na all y cops ychwanegu rhywbeth cyhuddol at y rhestr. Dylech hefyd wrthod lofnodi am rywbeth nad yw'n eiddo i chi, neu a allai cael ei ddefnyddio i'ch cyhuddo. Byddyt hefyd yn gofyn i chi os ydych am gael copi o *PACE (yr Heddlu a chodau Thystiolaeth Droseddol ymarfer)* ac i lofnodi i ddweud eich bod wedi ei wrthod. Rydym yn awgrymu eich bod yn cymryd copi - dyma yr unig beth y byddwch yn ei gael i ddarllen felly pam ddim? Byddych yn dysgu y rheolau mae'r heddlu i fod i ddilyn. Caiff eich olion bysedd, llun a swab poer ei gymryd, yna byddwch yn cael eich rhoi mewn cell nes bod yr heddlu yn barod i ddelio â chi.

PEIDIWCH Â CHYNHYRFU!

C: Beth os ydw i dan 18 oed?

Mae'n rhaid bod 'oedolyn priodol' yno ar gyfer y cyfweiliad. Bydd yr heddlu bob amser am i hyn fod dy fam neu tad, ond efallai y byddwch am roi enw o brawd neu chwaer hyn neu berthynas neu ffrind oedolyn arall (er efallai na fydd y cops yn derbyn ffrind). Os nad oes gennych unrhyw un, byddant yn cael gweithiwr cymdeithasol - gallai hyn achosi mwy o broblemau i chi ar ôl hynny.

C: Pryd y gallaf gysylltu â chyfreithiwr?

Dylech fod yn gallu ffonio chyfreithiwr cyn gynted ag y cewch eich arestio, unwaith yng ngorsaf yr heddlu dyma sydd fod yn un o'r pethau cyntaf y dylech ei wneud, am ddau reswm:

1. Er mwyn i rhywun cael gwybod ble rydych chi.

2. I ddangos i'r heddlu **nad ydych** yn mynd i fod yn “darged meddal” - efallai y bydd hyn yn golygu fyddyn nhw llai tebygol o bwysu arnoch chi.

Fe'ch cynghorir i osgoi defnyddio'r cyfreithiwr ar ddyletswydd gan y gallant fod yn crap neu fod rhy agos at yr heddlu. Mae'n werth canfod rhif cyfreithiwr da yn eich ardal ac ei gofio. Mae'r heddlu yn wylriadwrus o gyfreithwyr da. Bydd unrhyw cyfreithiwr da yn darparu cyngor rhad ac am ddim yn yr orsaf heddlu.

Hefyd, cofiwch osgoi dweud unrhyw lawer i'ch cyfreithiwr am yr hyn a ddigwyddodd. Gall hyn gael ei ddweud yn hwyrach ymlaen. Am y tro, dywedwch wrthynt eich bod yn gwrthod siarad. Gall eich cyfreithiwr yna ddod i fewn i'r orsaf heddlu tra bod yr heddlu yn eich cyfweld: dylech wrthod cael eu cyfweld oni bai fod eich cyfreithiwr yn bresennol.

C: Beth yw cyfweliad?

Mewn cyfweliad mae heddlu yn eich holi am y troseddau y maent am eich cyhuddo ohono. Bydd y cyfweliad yn cael ei gynnal mewn ystafell gyfweld yn yr orsaf heddlu a dylid eu tapio.

MAE CYFWELIAD O FUDD I'R HEDDLU A NEB ARALL.

Cofiwch eu bod am eich erlyn chi am ba bynnag trosedd y gallant ei sdcio arnoch chi.

MAE CYFWELIAD YN SEFYLLFA BLE NID OES MODD I CHI ENNILL.

Er eich budd chi, yr unig beth i'w ddweud mewn cyfweliad yw “**DIM SYLW**”.

COFIWCH: Yn gyfreithiol, ni allant eich gorfodi i siarad.

Byddwch yn wylriadwrus o ymdrechion i'ch cyfweld yn fan yr heddlu neu'r yn y gell ac ati gan fod yr holl gyfweliadau yn cael eu recordio y dyddiau hyn. Efallai y bydd yr heddlu yn ceisio esgus eich bod wedi cyfaddef cyn i'r cyfweliad fynd ar dâp. Unwaith eto yn dwedwch “**DIM SYLW**”.

C: A fydd yr heddlu yn fy cyfweld ar unwaith?

Nid o reidrwydd. Efallai y byddant yn gadael i chi fynd heb eich cyhuddo ar fechnïaeth yr heddlu gyda dyddiad i ddychwelyd i'r orsaf heddlu. Yn y cyfamser, byddant yn gwirio teledu cylch cyfyng ac yn ceisio cael tystiolaeth yn eich herbyn. Pan fyddwch yn dychwelyd efallai y byddant yn eich cyfweld.

C: Pam fod yr heddlu eisïau i mi ei ateb eu cwestiynnau?

Os bydd yr heddlu yn credu bod ganddynt ddigon o dystiolaeth yn eich erbyn, ni fydd angen iddynt gyfweld â chi. Er enghraifft, yn y rhan fwyaf o arestïadau trefn gyhoeddus maent yn dibynnu ar ddatganiadau tystion ryw un neu ddau o heddweision neu dystion wrth law, ni fyddwch hyd yn oed yn cael eich cyfweld. Hefyd, os ydynt wedi arestio chi a phobl eraill, byddant yn ceisio eich annog i ymhlygiadu pobl eraill. Mae'r heddlu'n awyddus i euogfarnu cymaint o bobl ag sy'n bosibl oherwydd:

1. Mae hyn yn creu'r argraff eu bod yn gwneud gwaith da wrth ddatrys troseddau. Mae'r gyfradd clirio yn bwysig iawn i'r heddlu; mae'n rhaid iddynt cael eu gweld yn gwneud eu swydd. Po fwyaf o droseddau y maent yn cael euogfarnau arnynt, y gorau mae'n edrych arnynt nhw.

2. Mae swyddogion yr heddlu eisïau dyrchafiad, i ddringo i fyny'r ysgol o hierarchaeth. Mae'r heddlu yn ennill dyrchafiad trwy rinwedd y nifer o droseddau y maent yn eu 'datrys'. Does dim un heddwes eisïau aros fel "bobi" drwy gydol ei oes.

"Trosedd wedi ei ddatrys" yw euogfarn yn erbyn rhywun. Dim ond rhaid i chi edrych ar achosion megis y 6 Birmingham i ddeall pa mor bell y bydd yr heddlu yn mynd i gael euogfarn. Mae rhoi y bai ar gam ar rhywyn i gynyddu'r "cyfrifiad clirio", yr un amser a cael gwared a phobl nid yw'r heddlu'n hoffi, yn rhywbeth sydd yn gyffredin yn amrediad eang yn yr holl heddluoedd ar draws y wlad.

C: Felly, os yw'r heddlu'n dymuno fy nghyfweld, mae'n dangos y gallwn i fod mewn sefyllfa dda?

Ydi - efallai nad oes ganddynt ddigon o dystiolaeth, ac yn gobeithio y byddwch yn ymhlygiadu eich hun neu bobl eraill.

C: A'r ffordd i aros yn y sefyllfa honno yw i wrthod cael eich tynnu i fewn i sgwrs ac ateb "DIM SYLW" i unrhyw gwestiynau?

Yn union.

C: Ond beth os bydd y dystiolaeth yn edrych fel eu bod wedi cael rhywbeth arnaf sydd yn damniol? Oni fyddai'n well egluro'r amgylchiadau cefais fy arestio ynddo, fel y byddant yn gadael i mi fynd?

Yr unig dystiolaeth sy'n bwysig yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn y llys i'r Ynad neu rheithgor. Yr unig le i esbonio popeth yw yn y llys; os ydynt wedi penderfynu cadw chi mewn, ni fydd unrhyw swm o egluro yn eich cael chi allan. Os bydd yr heddlu'n cael digon o dystiolaeth, gall unrhyw beth a ddywedwch ond yn ychwanegu at y dystiolaeth yn eich erbyn.

Pan fydd yr Heddlu yn cyfweld rhywun, maent yn gwneud popeth a allant i drysu ac eich dychryn chi. Efallai na fydd y cwestiynau yn gysylltiedig â'r drosedd. Eu nod yw i feddalu chi, i'ch perswadio i sgwrsio. Peidiwch ag ateb cwestiynau siarad bach ac yna dychryn pan fyddant yn gofyn cwestiwn am y drosedd. Mae'n edrych yn waeth yn y llys.

I'ch erlyn chi, mae'n rhaid i'r heddlu gyflwyno eu tystiolaeth i *Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS)*. Caiff copi o'r dystiolaeth ei anfon at eich cyfreithiwr. Mae'r dystiolaeth fel arfer yn dibynnu ar bwyntiau bychan iawn: dyma pam mae'n bwysig peidio datgelu unrhyw beth yn y ddalfa. Efallai y byddant yn dweud y bydd gwrthod i siarad yn cael ei ddefnyddio yn eich erbyn yn y llys, ond y lle gorau i weithio allan yr hyn yr ydych eisiau ei ddweud yw nes ymlaen gyda'ch cyfreithiwr. Os nad oes ganddynt ddigon

o dystiolaeth caiff yr achos ei thafu allan neu ni fydd byth hyd yn oed yn cyrraedd y llys. Dyma pam y maent am i chi siarad. Mae arnynt angen yr holl dystiolaeth y gallant ei gael. Gallai un gair achosi llawer o drafferth i chi.

C: Felly, mae'n rhaid i mi gadw fy ngheg ar gau. Pa driciau y gallaf ddisgwyl oddiwrth yr heddlu er mwyn gwneud i mi siarad?

Mae'r heddlu yn ceisio perswadio pobl i siarad mewn nifer o ffyrdd cyfrwys. Mae'r canlynol yn dangos rhai enghreifftiau eithaf cyffredin, ond cofiwch y gallant roi cynnig ar llinell arall arnoch chi.

Dyma bethau sydd yn aml yn dal pobl allan.....

A series of horizontal lines for writing, with a vertical line on the right side. The lines are black and spaced evenly, providing a template for a list of reasons.

PEIDIWCH A CHAEL EICH DAL ALLAN.

1. “Dewch ymlaen nawr, rydym yn gwybod mai chi wnaeth, mae dy ffrind yn y gell drws nesaf, ac mae wedi dweud wrthym y stori gyfan.”

Os ydynt wedi cael y stori, pam y mae eu hangen arnynt dy “gyffes”? Mae troi dau a’u cyd-gyhuddir yn erbyn eu gilydd yn dric cyffredin, gan nad oes gennych unrhyw ffordd o wirio beth mae pobl eraill wedi ei ddweud. Os ydych wedi gwneud rywbeth amheus gyda phobl eraill, gweithio allan stori a chadw ati. Peidiwch â chredu yr heddlu os ydynt yn dweud bod eich cyd-gydduyd wedi cyffesu.

2. “Rydym yn gwybod nad chi sydd wedi troseddu. Dewch nawr Dewi, paid a bod yn wirion, dwed wrthym pwy gyflawnodd y drosedd!”

Fe ddefnyddia yr heddlu dy enw cyntaf i ymddangos fel maent yn ffrinidau gyda ti. Os wyt ti’n ifanc fyddyn nhw’n bihafio mewn modd fel eu bod yn rhieni iddyt a.y.y.b.

3. “Cyn gynted ag y byddwn yn darganfod beth ddigwyddodd gallwch fynd”

Mae nhw’n siarad rwtsh!

4. “Sbia rwan y basdad bach, paid a ffwcio gyda ni. Rydym wedi delio gyda cymeriadau go iawn; mae chachgi bach fel ti yn golygu dim i ni. Ti wnaeth e y cachiad bach a ti am ddweud wrtym ni.”

Maent yn ceisio eich dychryn chi.

5. “Be ma boi iawn fel chdi yn ei wneud yn cyboli mewn rwbath fel hyn?”

Maent dal yn ceisio eich cael i siarad.

6. “Byddwn yn eich cadw mewn ‘tan i chi ddweud wrthym!”

Mae’n rhaid iddynt roi i chi o flaen yr ynad neu eich rhyddhau chi o fewn 36 awr (neu 14 diwrnod os harestio o dan y *Ddeddf Terfysgaeth*). Dim ond ynad gellir gorchymyn i eich cadw heb gyhuddiad unrhyw hirach.

7. “Nid oes hawl i dawelwch bellach. Os na fyddwch yn ateb cwestiynau y bydd y barnwr yn gwybod eich bod yn euog.”

Ni all gwrthod siarad gael ei ddefnyddio i’ch euogfarnu ar ben ei hunain. Os oedd ganddynt digon o dystiolaeth ni fyddent yn eich cyfweld.

8. “Byddwch yn cael eich cyhuddo gyda rhywbeth llawer mwy difrifol os na fyddi di’n dechrau ateb ein cwestiynau, ngwashi. Ni fyddi di yn gweld golau dydd am amser hir. Dechreua ateb ein cwestiynau achos da ni’n dechrau cael llond bol ohona ti!”

Brawychu meddyliol. Mae’n annhebygol eu bod am dy gyhuddo o rhywbeth difrifol gan na fuasai yn sefyll yn y llys. Paid â mynd i banig.

9. “Rydych chi wedi cael eich arrestion o dan y Ddeddf Terfysgaeth, felly nid oes gennych unrhyw hawliau.”

Mwy o fgythiadau meddyliol a mwy o reswm i ddweud **“DIM SYLW”**.

10. “Mae fy nith yn dipyn o rebel.”

Ia, dwi’n siwr...

11. “Os bydd nain rhywun yn cael ei mygio heno dy fai di fydd o. Rhoi’r gorau i wastraffu ein hamser trwy beidio â siarad.”

Maent yn trio gwneud i ti deimlo’n euog. Paid a gwrando arnyn nhw, nes di ddim *gofyn* i gael dy arrestio.

12. PC Neis: “Hiya, beth ‘di hyn, ta? Mae Rhingyll Smith yn dweud dy fod mewn tipyn o drwbwl. Mae o braidd yn flin efo chdi. Dweda wrtha i be ddigwyddodd a fe wnaeth

Rhingyll Smith ddim dy boeni di. Dydi o ddim y gorau o'm swyddogion, mae'n colli ei dymer yn awr ac yn y man. Felly, be ddigwyddodd?"

Mae'r heddwas "Neis" yr un mor gyfrwys ag yw'r heddwas cas. Bydd ef neu hi yn cynnig paned, neu blanced i ti. Dyma'r dull ysgafn-dawel. Rwtsh ydi hyn. **"DIM SYLW"**

13. "Rydym wedi bod yma am hanner awr rwan a ti heb ddeud ffycing gair... Dechra siarad y cont, bydd rhai o'r hodia CID yn dod lawr mewn munud. Fyddyn nhw yn gwneud i chdi siarad mewn dim o amser. Siarada rwan neu fe ai i nol nhw."

Dal ati, mae nhw'n desbret. Mae nhw ar fin rhoi'r gorau iddi. Mae gen ti lot i golli drwy siarad.

14. "Dechra siarad neu fydd dy blant yn mynd i mewn i ofal."

Rho manylion i dy gyfreithiwr am ffrind neu berthynas sy'n gallu edrych ar ôl dy blant. Nid oes gan yr heddlu y grym i gymryd dy blant i mewn i ofal.

15. "Yli, rydym ni wedi trio cysylltu efo dy gyfreithiwr, ond ni allwn gael gafael arnynt. Mae hyn yn mynd i lusgo ymlaen am oesoedd. Pam ddim jest gwneud y cyfweliad er mwyn i chdi gael mynd adref."

Peidiwch byth â derbyn cyfweliad heb eich cyfreithiwr yn bresennol, gall ychydig mwy o amser rwan arbed blynyddoedd nes ymlaen!

16. "Rydych yn amlwg ddim yn ddwl. Beth am wneud bargaen. Os wnei di gyfaddef i un o'r cyhuddiadau, byddwn yn gollwng y ddau arall. Byddwn yn argymell i'r barnwr eich bod yn cael dedfryd digarchar, oherwydd dy fod wedi cydweithio. Sut mae hynny'n swnio?"

Maent yn ceisio eich perswadio i wneud bargaen. Nid oes unrhyw fargeinion i'w gwenu wrth ddelio gyda'r heddlu. Nid yw'r heddlu'n

rheoli pa ddedfryd a gewch.

17. “Mae gwastraffu amser yr heddlu yn drosedd ddifrifol.”


Ni allwch gael eich cyhuddo o wastraffu amser yn heddlu am beidio ateb cwestiynau.

Efallai y bydd y cops yn arw tuag atoch, neu yn ddefnyddio trais i gael cyffes (gwir neu anwir) ohonoch chi. Mae llawer o enghreifftiau o bobl yn cael eu “gosod i fyny” (fitted up) ac eu hymosod arnynt yn gorfforol nes iddynt gyffesu i bethau nad oeddent wedi ei wneud. Eich penderfyniad chi ydi siarad yn hytrach na wynebu anafiadau difrifol. Ond cofiwch, gall yr hyn yr ydych yn ei ddweud eich anfon chi ag eraill i lawr am amser hir iawn.

Fodd bynnag, peidiwch â dibynnu ar wrthdynnu’r cyffes yn y llys - mae’n anodd i fynd yn ôl unwaith y byddwch wedi dweud rhywbeth.

Yn yr orsaf heddlu mae’r cops yn dibynnu ar naïfrwydd pobl. Os ydych yn gwybod am y triciau y maent yn ei chwarae, mae’n bur debyg y byddant yn rhoi’r gorau i drïo. Yn yr enghreifftiau hyn, rydym wedi ceisio dangos sut y byddant yn ceisio eich gorfodi i siarad. Dyna pam mae’n rhaid i chi wybod beth i’w wneud pan fyddwch yn cael eich harestio.

Gall y drafferth yn yr orsaf heddlu fod yn ddrwg, ond os ydych ar y bêl, y gallwch fynd yn rhydd. Mae rhaid iddych chi fod yn barod.



RYDYM WEDI CAEL LLAWER O BROFIAD O'R HEDDLU AC YN SYML RYDYM YN DWEUD HYN:

Peidiwch â chynhyrfu ac cadewch yn cwl pan cewch eich harestio (cofiwch eich bod yn chwarae gyda'r arbenigwyr yn awr, ar eu tir cartref).

Peidiwch â chael eich tynnu i mewn sgysiau gyda'r heddlu ar unrhyw adeg.

Cael cyfreithiwr.

Peidiwch byth â gwneud datganiad.

Os ydynt yn rhoi cweir i chi, wech i weld meddyg yn syth ar ôl cael eich ryddhau. Gofynnwch am adroddiad ysgrifenedig o'r holl cleisio a marcio. Tynnwch luniau o'r holl anafiadau. Cofiwch enwau a rhifau yr heddlu os yn bosibl.

Os ydych wedi dweud dim yn yr orsaf heddlu, gallwch wedyn yn edrych ar y dystiolaeth ac yn gweithio allan eich ochr chi o'r stori.

DYMA SUT Y BYDDWCH YN LLWYDDO PEIDIO CAEL EUOGFARN

**MAE CYFWELIAD YN SEFYLLFA
BLE NI ELLID ENNILL. NID OES
RHAIID I CHI SIARAD. OS BYDD YR
HEDDLU'N DYMUNO CYFWELD
CHI, MAE'N DANGOS EICH BOD
MEWN SEFYLLFA DDA...**

**A'R UNIG FFORDD I AROS YN Y
SEFYLLFA HONNO YW I WRTHOD
CAEL EICH TYNNU I FEWN I
UNRHYW SGWRS AC ATEB "DIM
SYLW" I UNRHYW GWESTIYNAU.**

C: Beth allaf ei wneud os yw un o fy ffrindiau neu deulu wedi cael eu harestio?

Os oes rhywun yr ydych yn ei adnabod wedi cael eu harestio, mae llawer y gallwch ei wneud i'w helpu ef neu hi o'r tu allan.

1. Os ydych yn gwybod pa enw y maent yn ei ddefnyddio, ffoniwch yr orsaf heddlu (fodd bynnag, os nad ydych yn siŵr peidiwch a rhoi eu enw go iawn i'r heddlu). Gofynnwch a ydynt yn cael eu dal yno ac ar ba gyhuddiad. Cofiwch na fydd yr heddlu yn dweud y gwir bob tro.

2. Tynnwch unrhyw beth o dŷ yr unigolyn a arestiwyd y gall yr heddlu ei ystyried yn ddiddorol:

Cyfrifiaduron, camerâu, ffonau symudol / cardiau SIM, llyfr cyfeiriadau, llythyrau, ID ffug ac ati rhag ofn i'r heddlu gyrchu y lle.

3. Cymerwch bwyd, meddyginiaethau hanfodol ac ati i mewn i'r orsaf heddlu ar gyfer eich ffrind sydd wedi eu arestio.

OND peidiwch â mynd i fewn i holi am garcharor yng ngorsaf yr heddlu os ydych yn rhedeg y risg o gael eich arestio eich hun. Byddwch ond yn cael eu harestio yno.

PEIDIWCH Â MYND AR BEN EICH HUN.

Mae'r heddlu wedi bod yn hysbys i ddiswyddo carcharor os oes ganddynt gefnogaeth weladwy o'r tu allan. Mae undod yn cadw carcharorion mewn hwyliau da.

NODIADAU





